

PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD

9 Mehefin 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell am 9.30am ddydd Mercher, 9 Mehefin 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Ralph Small, Dave Hughes, Tim Roberts, Haydn Bateman.

AELODAU CYFETHOLEDIG: Y Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Julian Thompson-Hill (Cyngor Sir Ddinbych) a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelod y Cynllun)

HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR): Elaine Williams (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau) a Phil Pumford (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau).

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Andrew Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwr Cynllun Arall) a Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol)

Panel Ymgynghorol: Colin Everett (Prif Weithredwr), Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen McWilliam (Cynghorydd Annibynnol – Aon Hewitt), Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr: Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth Cronfa Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), Paul Vaughan (Cyfrifydd Cronfa Clwyd), Megan Fellowes (Dadansoddwr Actactiwaraidd – Mercer – cymryd cofnodion), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig).

Siaradwyr gwadd yn cyflwyno: Hill Gaston (Mercer) a Sabel Wiliam (Archwilio Cymru)

Croesawodd y Cadeirydd y Cyng. Hughes yn ôl i'r Pwyllgor yn lle'r Cyng. Mullin. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. Mullin am ei gyfraniad gwerthfawr at y Pwyllgor.

Estynnodd groeso hefyd i Ms Wiliam o Archwilio Cymru, sy'n cyflwyno'r cynllun archwilio blynyddol.

141. **DATGANIADAU O GYSYLLTIAD (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

142. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Yn dilyn enwebiadau gan y Cyngwr. Hughes a Small, penododd y Pwyllgor y Cyngwr. Bateman yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Penododd y Pwyllgor yr Is-gadeirydd a nodi bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi'u penodi fel Aelod a Dirprwy, yn y drefn honno, o Gyd-Bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

143. **COFNODION 23 Mawrth 2021**

Ystyriodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2021.

Ar dudalen 9 y rhaglen, cyfeiriodd Mr Hibbert at y drafodaeth yn ymwneud â phenodi Cynrychiolydd Aelod y Cynllun ar y Cydbwyllgor Llywodraethu. Amlygodd Mr Hibbert fod y swydd-ddisgrifiad yn nodi y dylai Cynrychiolydd Aelod y Cynllun gynrychioli buddiannau holl aelodau'r cynllun. Mynegodd ei bryderon ynghylch ymarferoldeb ac elfennau gwahaniaethu posibl y broses benodi Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

PENDERFYNWYD:

Cadarnhau bod gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2021 yn gofnod cywir.

144. **CYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT CRONFA BENSIYNAU CLWYD**

Croesawodd Mr Vaughan Ms Wiliam i'r cyfarfod a nododd fod y Pwyllgor yn gyfrifol am gymeradwyo'r adroddiad blynyddol, yn cynnwys y cyfrifon, erbyn diwedd mis Tachwedd. Cadarnhaodd y bydd y cyfrifon drafft yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfod mis Medi'r Pwyllgor.

Cyflwynodd Ms Wiliam y cynllun archwilio ar dudalen 17 ac amlygu'r pwyntiau allweddol canlynol:

- Y ddwy risg archwilio ariannol yw rheolwyr yn diystyru ac effaith COVID-19.
- Dywedodd fod rheolwyr yn diystyru yn risg i bob corff a'i bod yn ofynnol ar gyfer pob cynllun archwilio.
- Tra bod effaith COVID-19 wedi rhoi mwy o bwysau ar adnoddau staff a gweithio o bell, sicrhaodd MS Wiliam y Pwyllgor na fyddai effaith COVID-19 yn effeithio ar y gwaith ar y cynllun archwilio.

- Y tair risg mewn perthynas â datganiadau ariannol yw daliadau buddsoddiadau, defnyddio rheolwyr buddsoddi allanol a throsglwyddo asedau i PPC.
- Nid yw'r ffi archwilio ar gyfer 2021 ar dudalen 24 wedi codi ers y flwyddyn flaenorol.
- Bydd yr adroddiad archwilio terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fis Tachwedd.

Gofynnodd y Cyng. Bateman beth yw rheolwyr yn diystyru. Cadarnhaodd MS Wiliam fod hon yn risg sylweddol ar gyfer pob corff yn eu cynlluniau archwilio er mwyn ymateb i ISA 240. Mae gwaith safonol Archwilio Cymru yn mynd i'r afael â'r risg felly nid oes angen mynegi unrhyw bryder.

PENDERFYNWYD:

Nodi cynllun Archwilio Cymru.

145. FFRAMWAITH RHEOLI RISG, LLWYBR HEDFAN A CHYLLID

Amlygodd y Cadeirydd, am y tro cyntaf ers i Gyngor Sir y Fflint ddod yn awdurdod gweinyddu, bod y Gronfa wedi rhagori ar y lefel ariannu o 100% a'i fod ar 102% yn unol â'r adroddiad.

Roedd Mr Latham yn falch o adrodd ar y sefyllfa a ariannir yn llawn a chadarnhaodd fod y Gronfa wedi tyfu o £300 miliwn yn 1996 i £2.1 biliwn heddiw. Dywedodd fod hanes y sefyllfa ariannu yn rhan o ddiweddariad ariannol Mrs Fielder.

Nododd y pwyntiau allweddol canlynol mewn perthynas â llwybr y Gronfa i sefyllfa sydd wedi'i hariannu'n llawn:

- Credodd mai un o'r rhesymau allweddol dros y llwyddiant yw dull rheoli'r Gronfa drwy'r llwybr hedfan a'r fframwaith rheoli risg sy'n gweithredu yn ôl y disgwyl.
- Mae hyn wedi'i gyflawni gan y Gronfa drwy bortffolio amrywiol a risg isel.
- Mae lefel y rhagfantoli ar gyfer chwyddiant a chyfraddau llog wedi bod yn fuddiol i lwyddiant y Gronfa.
- Mae'r amlygiad ecwiti yn darparu sicrwydd ond, er hynny, ni fu angen hynny gan fod y marchnadoedd wedi parhau i godi.
- Drwy ragfantoli'r risg bresennol, mae'r Gronfa wedi ennill £15.8 miliwn ers dechrau'r strategaeth hon.
- Peth arall cadarnhaol yw bod modd rhyddhau £100 miliwn arall tra'n cynnal yr un risg/adenillon cyffredinol. Gellir defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn ar gyfer ymrwymadau i asedau marchnadoedd preifat cynaliadwy yn y dyfodol.

Nododd Mr Middleman, gan fod y lefel ariannu dros 100%, y cytunwyd i ystyried a ddylid lleihau'r risg ymhellach ac, os felly, beth fyddai'r goblygiadau ar gyfer adenillon ac, yn y pen draw, ar lefel a sefydlogrwydd gofynion cyfraniadau cyflogwyr. Eglurodd Mr Middleman beth yw'r camau nesaf o ran ystyried unrhyw gam gweithredu y dylid ei gymryd – bydd y rhain yn cael eu trafod yn ystod cyfarfod nesaf yr FRMG. Ar dudalen 31, eitem 1.07, amlinellir y camau a'r camau gweithredu posibl nesaf i'w hystyried, sy'n cynnwys gwneud dim, lleihau'r amlygiad ecwiti a/neu gynyddu lefelau rhagfantoli – yn enwedig ar gyfer chwyddiant o ystyried yr ansicrwydd presennol.

Cadarnhaodd Mr Middleman fod y lefel ariannu wedi parhau i wella ac amcangyfrifir ei bod yn oddeutu 103%.

Gofynnodd Mr Everett pa mor nodweddiadol yw sefyllfa ariannol y Gronfa yn erbyn Cronfeydd LGPS a chronfeydd pensiwn eraill. Cadarnhaodd Mr Middleman bod hyn yn gysylltiedig â strategaeth pob Cronfa. Er enghraifft, byddai cronfeydd pensiwn eraill sydd â dyraniad ecwiti uwch wedi gweld mwy o welliant yn y sefyllfa ariannu ac fel arall. Fodd bynnag, bydd gan y Gronfa fwy o sadrwydd o gymharu â chronfeydd pensiwn eraill oherwydd y mesurau diogelwch sydd yn eu lle e.e. rhagfantoli a strategaeth diogelu ecwiti. Felly mae'n debygol y bydd llai o sefyllfaoedd ffyniant a methiant.

Credodd Mr Everett petai'r Gronfa yn dal mewn sefyllfa wedi'i hariannu'n llawn erbyn y gwerthusiad tair blynedd nesaf, y byddai angen ystyried cynnal neu leihau cyfraniadau cyflogwyr oherwydd yr heriau cyllidol ar gyfer cyflogwyr wrth gydbwyso eu cyllidebau. Cytunodd Mr Middleman bod hyn yn ystyriaeth ac ychwanegodd bod angen mwy o drafodaethau gyda chyflogwyr ynglŷn â lefel unrhyw ostyngiad oherwydd, po fwyaf y bydd cyfraniadau yn lleihau y mwyaf tebygol maent o fynd yn uwch yn y dyfodol, yn enwedig os yw'r arian dros ben yn cael ei ddefnyddio. Byddai hyn yn ystyriaeth allweddol o ran y cydbwysedd rhwng cyllidebau cyflogwyr yn y tymor byr a sefydlogrwydd hirdymor y cyfraniadau. Mae Mr Middleman yn disgwyl i'r drafodaeth hon ddigwydd gyda'r cynghorau mawr fel rhan o adolygiad ariannol dros dro sy'n cael ei gynnal yn ddiweddarach eleni.

Holodd Mr Hibbert a fyddai modd i'r Gronfa leihau ei amlygrwydd i ecwitiau tanwydd ffosil dwys i helpu'r Gronfa gyrraedd y targed sero net erbyn 2050. Nododd Mr Middleman fod y map ffordd i ymrwymiad sero net yn ganolog o fewn y strategaeth llwybr hedfan felly byddai unrhyw newid yn bendant yn ystyried yr amcanion hyn. Er enghraifft, bydd yr effaith gymdeithasol ac amgylcheddol yn ganolog o ran lle caiff y £100 miliwn o warantau o'r strategaeth ei fuddsoddi.

Holodd y Cyng. Williams a ddylai'r Gronfa leihau ei fuddsoddiadau mewn tanwyddau ffosil o ystyried bod y Gronfa wedi rhagori ar ei sefyllfa o fod wedi'i hariannu'n llawn ac y gallan nhw gymryd yr "ergyd" o'u gwerthu'n rhwydd.

Dyweddodd Mr Harkin y byddai hyn yn cael ei grybwyll dan yr eitem nesaf ar y rhaglen. Cadarnhaodd nad oes gan y Gronfa lawer o amlygiad i stociau tanwydd ffosil dwys ond credodd y dylai hyn fod yn rhan o integreiddio cyfannol i gyflawni'r ymrwymiad sero net.

Nododd Mr Harkin fod y £100 miliwn o warantau o'r strategaeth llwybr hedfan yn amcangyfrif ceidwadol a bod potensial i'w defnyddio fel rhan o fuddsoddiadau Marchnad Preifat.

Gofynnodd y Cyng. Bateman beth yw'r FRMG. Cadarnhaodd Mr Middleman mai'r Grŵp Cyllid a Rheoli Risg (Funding and Risk Management Group) yw'r FRMG a sefydlwyd fel rhan o strwythur llywodraethu'r Gronfa. Mae'r grŵp yn cynnwys Mr Middleman fel Actiwari, Nick Page fel Ymgynghorydd Risg, Mr Harkin fel Ymgynghorydd Buddsoddiadau, Mr Latham fel Pennaeth y Gronfa Bensiynau a Mrs Fielder fel Dirprwy Bennaeth y Gronfa. Mae gofyn i Mr Latham gymeradwyo materion a drafodwyd yn y grŵp dan gynllun dirprwyo cytunedig y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn ystyried cynnwys yr adroddiad.

146. MAP FFORDD BUDDSODDIADAU CYFRIFOL

Dyweddodd Mr Latham mai'r ddwy flaenoriaeth allweddol o ran buddsoddi cyfrifol sy'n cael eu hystyried dan yr eitem hon yw gosod a chyflawni amcanion newid hinsawdd a nodi cyfleoedd buddsoddi cynaliadwy. O ran y cyntaf o'r rhain, gofynnir i'r Pwyllgor gytuno i fabwysiadu uchelgais sero net erbyn 2050 ar gyfer strategaeth fuddsoddi'r Gronfa. Fodd bynnag, eglurodd Mr Latham mai 2050 yw'r dyddiad hwyrach i geisio cyflawni hyn a gobeithiodd y byddai dadansoddiad pellach yn eu caniatáu i osod dyddiad cynharach na 2050. Mae'r ail argymhelliad yn gofyn i'r Pwyllgor gytuno ar fap ffordd, sydd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad pellach hwn.

O ran yr ail flaenoriaeth, eglurodd Mr Latham fod Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa yn credu y dylai ecwitiâu cynaliadwy byd-eang ffurfio rhan sylweddol o bortffolio ecwiti'r Gronfa. Felly, amlinellodd yr argymhelliad i'r Pwyllgor wneud cais ffurfiol i PPC i gynnig Is-Gronfa Ecwiti Cynaliadwy Byd-Eang Gweithredol. O ystyried y byddai'n rhaid i'r cais hwn fynd drwy'r Cyd-Bwyllgor Llywodraethu a Chronfeydd eraill PPC, mae'r amserlen gyflawni yn debygol o fod yn 12 i 24 mis.

Darparodd Mr Gaston grynodedb o'r cynnydd y mae'r Gronfa eisoes wedi'i wneud mewn perthynas â newid hinsawdd. Eglurodd fod targed sero net yn cyfeirio at gyflawni allyriadau carbon sero net drwy gydbwysu allyriadau carbon

gyda gwaredu carbon. Y tri phrif reswm i fuddsoddwr fabwysiadu targed sero net yw:

- Mae gwyddoniaeth newid hinsawdd yn dweud wrthym ni fod gennym ni oddeutu deng mlynedd i gyfyngu a lliniaru effeithiau gwaethaf newid hinsawdd. Ar hyn o bryd rydym ni ar drywydd i weld cynnydd o 2.9 gradd erbyn 2100. Fodd bynnag, nod Cytundeb Paris yw cyfyngu ar y cynhesu i dan ddwy radd. I gyflawni hyn mae'r IPCC – y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd, yn nodi fod angen gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau o 45% erbyn 2030 (yn seiliedig ar lefelau 2010).
- Yn ail, mae momentwm yn tyfu ar draws gwahanol randdeiliaid, marchnadoedd a thechnoleg. Er enghraifft, mae datblygiadau technoleg wedi arwain at gostau is ar gyfer cynhyrchu ynni o'r gwynt a'r haul, ac mae'r rhain yn trechu tanwydd ffosil amgen fel glo.
- Yn olaf, mae'n bur debyg y bydd y model economaidd presennol, sy'n dibynnu ar danwydd ffosil, yn newid i fersiwn wyrddach o'r economi.

Dywedodd Mr Gaston mai'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol yn ymwneud â'r Hinsawdd yw'r TCFD (Task Force on Climate-related Financial Disclosures). Mae hwn yn fframwaith rhyngwladol sy'n darparu nifer o argymhellion amlygiadau newid hinsawdd. Disgwylir y bydd yn ffurfio sail i'r rheoliadau LGPS newydd y bydd ar y Gronfa angen cydymffurfio â nhw.

Eglurodd Mr Gaston y bydd ar y Gronfa, wrth weithredu targed sero net, angen cynllun sy'n cynnwys targedau credadwy a chyraeddadwy yn ogystal â chynllun sy'n cyrraedd y targedau ariannol. Mae pedwar cam i greu cynllun:

1. Cyfrifo'r waelodlin – mae hyn yn cynnwys allyriadau presennol, gallu newid ac amlygiadau gwyrdd.
2. Dadansoddi posibiliadau portffolio er mwyn gweithredu newid ar draws portffolio drwy ddsbarth asedau.
3. Pennu targedau mesuradwy ar gyfer lleihau allyriadau a chynyddu'r gallu i newid, wedi'u profi yn erbyn senarios gwahanol (e.e. targed sero net erbyn 2050).
4. Gweithredu cynllun, gan dynnu ar allbynnau o bob cam.

Cadarnhaodd y byddai Mercer yn darparu rhagor o fanylion i'r Pwyllgor eu cymeradwyo ar ôl eu dadansoddiad yng nghyfarfod mis Tachwedd. Ar ôl cytuno ar y targedau a'r cynlluniau gweithredu, bydd y Gronfa yn diweddarau ei pholisi a byddai hynny wedyn yn digwydd yn flynyddol.

Oherwydd bod y Gronfa wedi'i hariannu 103%, ailddatganodd Mr Hibbert y cwestiwn cynharach o ran a yw'r sefyllfa hon yn gyfle i gyflawni rhywbeth rŵan mewn perthynas â newid hinsawdd drwy symud o gwmnïau tanwydd ffosil. Dywedodd Mr Gaston fod y categori llwyd yn y sleidiau yn cynrychioli cwmnïau carbon uchel gyda photensial newid isel – fe all y rhain gynnwys cwmnïau

olew/nwy yn ogystal â chwmnïau carbon uchel eraill e.e. yn y sectorau dur a sment. Felly, nid cwmnïau tanwydd ffosil yn unig sydd yn y llwyd. Ychwanegodd Mr Gaston fod disgwyl efallai i rai cwmnïau ynni symud eu modelau busnes o olew/nwy i ffynonellau ynni adnewyddadwy. Felly, byddai dadansoddiad Mercer yn amlygu lle mae'r cwmnïau hyn yn eistedd o ran potensial newid ac yn helpu i benderfynu ar y ffordd orau i'r Gronfa reoli'r amlygiadau hyn i'r dyfodol. Yn ogystal, drwy stiwardiaeth, byddai Robeco yn dal y cwmnïau hyn i gyfrif ac yn sicrhau bod eu modelau busnes yn newid dros amser.

Credodd Mr Hibbert petai un cwmni echdynnu yn gwneud gostyngiad carbon sylweddol na fyddai hynny'n golygu y byddai pob cwmni yn gwneud yr un fath. Cytunodd Mr Gaston â Mr Hibbert, ond dywedodd ei fod yn credu y dylid gwneud dadansoddiad manwl cyn cynnal trafodaethau ar sut i reoli cwmnïau 'llwyd'. Cytunodd Mr Everett â sylwadau Mr Hibbert ond roedd yn credu ei fod yn bwysig i'r Gronfa gymryd ei hamser i gael yr wybodaeth lawn cyn gwneud penderfyniadau, gan sicrhau bod canlyniadau unrhyw benderfyniad yn cael eu hystyried yn iawn.

Ychwanegodd Mr Everett bod arno eisiau dysgu mwy am yr amserlen newid a gweithredu.

Meddyliodd y Cyng. Thompson-Hill, o ystyried cymhlethdod y mater hwn, sut y byddai'r Gronfa yn cyfathrebu'r penderfyniad hwn i aelodau (yn arbennig y rheiny y tu allan i'r Pwyllgor Pensiynau) ac i randdeiliaid eraill a all fod heb dderbyn gwybodaeth gefndir neu hyfforddiant. Dywedodd Mr Latham y bydd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn newyddlenni sy'n cael eu hanfon at aelodau a'i fod yn bwriadu cynnwys eitem ar raglen y cyfarfod ymgynghorol blynyddol. Roedd Mr Latham yn cydnabod y ffaith bod nifer o'r sesiynau hyfforddiant ar fuddsoddi cyfrifol a newid hinsawdd wedi'u cynnal o fewn y flwyddyn ddiwethaf gyda'r bwriad o rannu'r wybodaeth gymhleth hon ar draws nifer o feysydd buddsoddi cyfrifol ac i helpu gallu'r Pwyllgor i wneud penderfyniadau. Cytunodd Mrs McWilliam gyda Mr Latham a phwysleisiodd yr angen am gyfathrebu clir ynghylch y mater hwn. Ychwanegodd hefyd, petai newidiadau i'r strategaeth fuddsoddi, y byddai'n rhaid i'r Gronfa ymgynghori ynghylch y newidiadau hyn gyda'r rhanddeiliaid priodol. Atgoffodd y Pwyllgor mai nhw sy'n pennu strategaeth fuddsoddi'r Gronfa ac mae cyfrifoldeb PPC yw gweithredu'r strategaeth eu ei ran, er yn ymarferol fe all fod rhai heriau felly bydd y cyfnod rhybudd hir hwn yn helpu pethau yn eu blaenau.

Cadarnhaodd Mr Harkin, oherwydd symud ecwiti marchnadoedd i PPC ym mis Hydref 2021, bod y dyraniad ecwiti ar gyfer PPC heb ei fuddsoddi'n llawn eto. Mae Russell yn dewis y rheolwyr tanategol sydd wedyn yn dewis sefyllfaoedd ecwiti penodol Cronfa Gyfleoedd Byd-Eang PPC, er bod Russell yn ceisio lleihau dwyster carbon y Gronfa 25% drwy strategaeth droshaen. Ychwanegodd Mr Harkin bod y portffolio syniadau gorau yn ddisgresiwn a bod Mercer yn llunio

fframwaith buddsoddi cyfrifol i droshaenu hyn ac i helpu i lywio sut mae'r gronfa yn gwneud ymrwymadau i'r dyfodol. Mae Mercer yn ymgymryd â'r gwaith hwn dros yr haf.

Gofynnodd y Cyng. Williams a yw'r rhan fwyaf o'r £25 miliwn sy'n cael ei fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil o fewn y Gronfa yn cael ei wneud yn uniongyrchol drwy reolwyr y gronfa neu drwy gyfuno. Cadarnhaodd Mr Gaston fod gan PPC amlygiadau ecwiti byd-eang o £5.6 miliwn (allan o'r £25 miliwn sydd wedi'i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil). Ymhellach i hynny, rhwng BlackRock a Chronfeydd Wellington (nad ydynt yn y PPC), bod oddeutu £20 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil drwy gronfeydd a ddelir y tu allan i PPC. Eglurodd Mr Latham y bydd y mandadau hynny y tu allan i PPC yn cael eu rheoli gan PPC fel rhan o newidiadau fis Hydref.

PENDERFYNWYD:

- (a) Cytunodd y Pwyllgor i fabwysiadu uchelgais Sero Net erbyn 2050 ar gyfer strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, gan nodi y gellir bod angen diweddarau hyn i ddyddiad cynharach yn dilyn ystyriaethau a dadansoddiadau pellach.
- (b) Cytunodd y Pwyllgor ar y cynllun gwaith neu'r map ffordd sero net lefel uchel fel y manylir arno yn 1.07. Mae'r map ffordd hwn yn gosod y camau nesaf sydd eu hangen i bennu targedau sero net wedi'u tanategu gan gynllun gweithredu credadwy.
- (c) Cytunodd y Pwyllgor i ofyn yn ffurfiol i PPC gynnig Is-Gronfa Ecwiti Byd-Eang Cynaliadwy Gweithredol a bod y prosiect angenrheidiol i greu'r Is-Gronfa hwn yn dechrau cyn gynted â phosibl.

147. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU AC YMGYNGHORIADAU

Mewn perthynas ag adran 4.01 yr adroddiad, nododd Mr Latham y risgiau presennol yn ymwneud â'r Gronfa yn ei chyfanrwydd. Ychwanegodd fod un risg goch ar draws y Gronfa, sy'n risg fuddsoddi mewn perthynas â buddsoddi cyfrifol. Wedi dweud hynny, mae gostyngiad wedi bod mewn sawl maes risg sydd, yn ei farn ef, yn beth cadarnhaol iawn o ystyried yr heriau diweddar fel COVID-19.

Dywedodd Mr Latham pa mor bwysig yw hi i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd fynd i sesiynau hyfforddiant a chynadledau ond roedd yn sylweddoli nad yw hyn bob tro yn bosibl ar y funud ac felly holodd am farn y Pwyllgor a'r Bwrdd.

PENDERFYNWYD:

Ystyried a nodi'r diweddariad.

148. **DIWEDDARIAD GWEINYDDU PENSIWN / CYFATHREBU**

Cyfeiriodd Mrs Williams at yr ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch cod newydd TPR, a gylchredwyd ar wahân. Dywedodd fod y rhan fwyaf o'r adroddiad yn ymwneud ag eitemau safonol ac felly amlygodd yr eitem ychwanegol, sef yr arolwg boddhad i gyflogwyr ac aelodau sy'n gofyn am adborth ar y ddarpariaeth gwasanaeth.

Diolchodd Mr Hibbert i'r tîm am eu gwaith caled a'u hymdrechion, sy'n amlwg o edrych ar y canlyniadau ardderchog yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

Ystyried a nodi'r diweddariad.

149. **DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU**

Nododd Mrs Fielder y pwyntiau allweddol canlynol ar yr eitem hon ar y rhaglen:

- Mae tudalennau 187 a 188 yn amlygu cerrig milltir allweddol y Gronfa a'r lefelau ariannu hanesyddol ers 1989.
- Gwnaeth y Gronfa dri buddsoddiad newydd yn y portffolio Marchnadoedd Preifat, yn unol â gofynion y Gronfa ar gyfer marchnadoedd preifat cynaliadwy.
- O fewn buddsoddiadau effaith a lleol, y ddwy gronfa a gytunwyd arnynt oedd Foresight Regional Fund III a Bridges Property Fund V. Mae'r Gronfa wedi buddsoddi yn Bridges Property Fund IV yn y gorffennol.
- Ar gyfer y portffolio Ecwiti Preifat, cymeradwyodd y Gronfa FSN Fund VI a gafodd ei hargymell gan Mercer. Mae gan y buddsoddiad hwn fanylion ESG rhagorol a nodau cynaliadwy, sy'n beth da ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd.
- Mae'r dadansoddiad llif arian ar dudalen 184 yn amlinellu fod y cyfraniadau/buddion net wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, mae incwm o farchnadoedd preifat wedi rhagori ar y gostyngiadau, sydd wedi helpu'r Gronfa i symud i sefyllfa lif arian iachach. Felly, gall fod gan y Gronfa fwy o arian i'w ddyrannu i fuddsoddiadau cynaliadwy.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn nodi'r adroddiad, yn cynnwys y diweddariad ar gyfer cyfrifoldebau dirprwyedig.

150. **CYFUNO BUDDSODDIADAU YNG NGHYMRU**

Cyfeiriodd Mr Latham at y pwyntiau allweddol canlynol mewn perthynas â chyfuno buddsoddiadau'r Gronfa yn PPC:

- Perfformiodd y Gronfa Aml-Ased a'r Gronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang yn well na'r meincnod.
- Llwyddodd y gronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-Eang leihau amlygiad carbon 25% ym mis Ebrill a bydd y Gronfa yn parhau i dderbyn adroddiadau ar y cynnydd.
- Bydd proses bontio'r ecwiti marchnad datblygol Wellington yn digwydd ar 6 Hydref 2021, sydd hefyd yn cynnwys gostyngiad carbon o 25%.
- Dywedodd fod yr is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol, sy'n cynnwys Mrs Fielder fel cynrychiolydd y Gronfa ar yr is-grŵp, wedi cwblhau llawer o waith mewn perthynas â buddsoddi cyfrifol.
- Yn ogystal, mae swyddogion y Gronfa wedi bod yn gweithio gyda PPC ar bortffolio Marchnadoedd Preifat ar y cyd â Mercer, a bydd y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ar y gwaith yma yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn nodi'r diweddariad.

151. **DIWEDDARIAD AR YR ECONOMI A'R FARCHNAD A'R STRATEGAETH BUDDSODDI A CHRYNODEB RHEOLWYR**

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad Economaidd a Marchnad.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r diweddariad Economaidd a Marchnad.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf, a gobeithiodd y bydd modd iddo weld yr aelodau yn ystod y digwyddiadau hyfforddiant sydd ar ddod. Bydd cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor ar 1 Medi 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:45pm.

.....

Y Cadeirydd